

Cymraeg mewn
Ymarfer Proffesiynol 2
2025-26




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 14 : Arddodiaid

Allwedd:




Drilio




Ymarfer ar
lafar (yn
unigol)




Tasg
wrandu




Gwaith
pâr



Grŵp o
dri




Gwaith
grŵp




Amser
canu



Gwaith ar
y byrddau
gwyn




Tasg
ysgrifennu



Tasg
ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth
i'r
Portffolio


Beth ydy arddodiad?

Mae arddodiad yn dangos y berthynas rhwng gair ac enw neu ragenw

Ble mae'r bêl?

Mae'r bêl YN y
bocs

arddodiad



Arddodiaid



Dyma rai o'r arddodiaid mwyaf cyffredin:

am

ar

at

gan

dros

drwy

wrth

dan

heb

hyd

i

o

Mae treigladau meddal yn dilyn yr arddodiaid uchod, e.e.

- Sefwch **wrth** ddrws dosbarth Mrs Jones.
- Rydw i'n chwilio **am** bâr o esgidiau newydd.
- Fydda i ddim yn gadael **am** ddwy awr arall.

Ble mae'r.....?



Mewn neu yn?

Mewn

- Wrth gyfeirio at enwau amhenodol e.e.
- Bwytais fy nghinio **mewn** bwyty yn y dref.

Yn

- Wrth gyfeirio at enwau amhenodol e.e.
- Mae Guto yn byw **yn** Ngorllewin Cymru.

Mewn neu yn?



Felly, pa un o'r canlynol sy'n gywir?

1. Wyt ti'n dod adref ein car ni heno?
2. Rydw i'n gweithio ysgol.
3. Bwytais fy nghinio swyddfa heddiw.
4. Bob dydd Sadwrn, rydw i'n gweithio M&S.
5. Wyt ti'n mynd i'r bore coffi ystafell yr athrawon?

Ymarfer



Beth sy'n mynd yn y bwloch? A oes yna wall arall hefyd?

1. Rydw i'n chwilio am _____ newydd i mynd i'r ysgol. (bag)

Dw i'n chwilio **am f**ag newydd **i f**ynd i'r ysgol.

2. Rydyn ni'n mynd ar _____ i Llangrannog wythnos nesaf. (taith)

Rydyn ni'n mynd **ar d**aith **i L**angrannog wythnos nesaf.

Ymarfer



Beth sy'n mynd yn y bwlch? A oes yna wall arall hefyd?

3. Rydw i wedi darllen cerdd gan _____ talentog. (bardd)

Rydw i wedi darllen cerdd **gan fardd** talentog.


4. Doedd Wil heb _____ ei waith cartref erbyn heddiw. (gwneud)

5. Doedd Wil **heb wneud** ei waith cartref erbyn heddiw.



Cywirwch y gwallau

Cynhesu Byd Eang



Mae pobl ifanc yn poeni'n fawr am effaith newid hinsawdd ar y Ddaear. Mae ymchwil yn dangos bod tymheredd cyfartalog y ddaear wedi codi 1% ers 1880. Nwy carbon deuocsid o losgi tanwydd ffosil sy'n cyfrannu fwyaf at cynhesu byd-eang.

Mae gwledydd am lleihau eu defnydd o tanwyddau ffosil a chynhyrchu mwy o egni glân o adnoddau adnewyddadwy. Mae Llywodraeth y DU eisiau plannu 43,000 o coetir a rhoi diwedd ar gwerthu ceir petrol a disel newydd erbyn 2030.

Pa newidiadau gallwn i wneud?

Ailgylchu mwy i lleihau nifer o cynhyrchion sy'n cael eu rhoi mewn safleoedd tirlenwi.

Drwy brynu cynnyrch lleol gallwn lleihau'r tanwydd sy'n cael ei losg wrth cudo cynnyrch o gwledydd tramor.

Adnodd defnyddiol ar gyfer drilio



Ysgrifennwch frawddegau sy'n cynnwys y canlynol.
Cofiwch dreiglo'n gywir!

i darllen	o pobl	o gwersi
i gwlad	o golau	

Y Blwch Llythrennedd

Cardiau drilio
o'r Blwch
Llythrennedd

Ble wyt ti'n dod-o?

A minnau ar wyliau eleni,
Ces air o gyngor gan ieithgi:
 'Paid dodi arddodiad
 Ar ddiwedd gosodiad.'
Atebais mewn eiliad, 'Sa'i 'n mynd i!'

Emyr Davies



Pwyntiau i'w cofio



- Peidiwch â defnyddio arddodiaid syml ar ddiwedd brawddegau:

Ble wyt ti'n dod o?

O ble wyt ti'n dod?

- Rhaid rhedeg arddodiaid ar ddiwedd brawddegau:

Mae annwyd arnaf i.

- Pan mae rhagenwau yn dilyn arddodiad, rhaid rhedeg yr arddodiad.
Dyma'r rhagenwau mwyaf cyffredin:

fi	ni
ti	chi
fe/hi	nhw

Rhedeg arddodiaid



Mae 'rhedeg' yr arddodiaid yn golygu 'ymestyn' yr arddodiad e.e.

Rhedeg yr arddodiad

ar + fi = arnaf i


i + hi = iddi hi

gan + nhw = ganddyn nhw

OND! Nid yw'r arddodiad 'i' yn
dilyn yr un patrwm. Dysgwch
yr isod:
i mi, i ti, iddi hi/iddo



Rhedeg yr arddodiad 'am'



am

amdanaf i

amadanat ti

amdano fe / fo

amdani hi

amdanon ni

amdanoch chi

amdany'n nhw


'am'

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw'n dilyn, e.e.

Rydyn ni wedi bod yn chwilio **amdanat ti**.

Maen nhw wedi bod yn aros **amdanoch chi**.

Rhedeg yr arddodiad 'ar'



ar

arnaf i

arnat ti

arno fe / fo

arni hi

arnon ni

arnoch chi

arnyn nhw


'ar'

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw'n dilyn, e.e.

Mae annwyd **arnaf i**.

Mae ofn **arnon ni**.

Rhedeg yr arddodiad 'at'



at

ataf i

atat ti

ato fe / fo

ati hi

aton ni

atoch chi

atyn nhw


'at'

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw'n dilyn, e.e.

Ewch draw **atyn nhw**.

Dw i wedi anfon e-bost **atat ti**.

Rhedeg yr arddodiad 'gan'



gan

gen i

gennyt ti

ganddo fe

ganddi hi

gennyn ni

gennyich chi

ganddyn nhw


'gan'

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw'n dilyn, e.e.

Mae dau frawd **ganddi hi**.

Mae gwaith da **gennyt ti**.

Rhedeg yr arddodiad 'dros'



dros

drosto i

drostot ti

drosto fe / fo

drosti hi

droston ni

drostoch chi

drostyn nhw


'dros'

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw'n dilyn, e.e.

Wyt ti'n fodlon mynd i'r cyfarfod dro**sto** i?

Wrth gwrs, af fi dro**stot** ti!

Rhedeg yr arddodiad ‘drwy’



drwy

drwyddo i

drwyddot ti

drwyddo fe / fo

drwyddi hi

drwyddon ni

drwyddoch chi


drwyddyn nhw

‘drwy’

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw’n dilyn, e.e.

Clywais am y swydd drwy**ddi** hi.

Rhedeg yr arddodiad ‘wrth’



wrth

wrtho i

wrthot ti

wrtho fe / fo

wrthi hi

wrthon ni

wrthoch chi

wrthyn nhw


‘wrth’

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw’n dilyn, e.e.

Hyd yn hyn, dydw i ddim wedi derbyn ateb wrthi **hi**.

Derbyniais anrheg hyfryd wrthyn **nhw**.

Rhedeg yr arddodiad ‘dan’



dan

dana i

danat ti

dano fe / fo

dani hi

danon ni

danoch chi


dany'n nhw

‘dan’

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw'n dilyn, e.e.

Ydy'r pren mesur ar y ddesg?
Nac ydy, mae o dani hi.

Rhedeg yr arddodiad ‘heb’



heb

hebddo i

hebddot ti

hebddo fe / fo

hebddi hi

hebddon ni

hebddoch chi

hebddyn nhw


‘heb’

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw’n dilyn, e.e.

Aethon ni hebddyn nhw.

“Peidiwch â mynd hebddo i!” gwaeddodd Siân.

Rhedeg yr arddodiad 'i'



i

i fi

i ti

iddo fe / fo

iddi hi

i ni

i chi

iddyn nhw


'i'

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw'n dilyn, e.e.

Mae'n rhaid **iddo fe** fynd i'r neuadd i ymarfer.

Oes rhaid **i fi** fynd i'r clwb heno?

Rhedeg yr arddodiad 'o'



o

ohonof i

ohonot ti

ohono fe / fo

ohoni hi

ohonon ni

ohonoch chi

ohonyn nhw

'o'

Mae arddodiaid yn newid pan mae rhagenw'n dilyn, e.e.

Faint **ohonoch chi** sydd eisiau cinio ysgol heddiw?

Mae'r ddau **ohonyn nhw**'n siarad eto!

Beth ydy'r atebion?

Rhedeg yr arddodiaid



am + ni = **amdanon ni**

i + nhw =

am + ti =

o + i =

at + ti =

gan + i =

ar + chi =

wrth + nhw =

dros + chi =

gan + ni =

heb + chi =

wrth + i =

o + chi =

i + fi =

o + hi =

gan + fe =

Rhedeg yr arddodiaid



am + ni = **amdanon ni**

ATEBION:

dros + chi = **drosoch chi**

i + nhw = **iddyn nhw**

gan + ni = **gennyn ni**

am + ti = **amdanat ti**

heb + chi = **hebdoch chi**

o + i = **ohono i**

wrth + i = **wrtho i**

at + ti = **atat ti**

o + chi = **ohonoch chi**

gan + i = **gennyf i**

i + fi = **i fi**


ar + chi = **arnoch chi**

o + hi = **ohoni hi**

wrth + nhw = **wrthyn nhw**

gan + fe = **ganddo fe**

Eich tro chi!



fi

fe

hi

nhw


ni

chi

ti



Eich tro chi!



am

ar

at

gan

drwy

wrth

heb

o

i



Rhedeg yr arddodiaid



Beth ydy'r geiriau coll?

1. Paid â gadael _____ hi.
2. Oes llawer o waith _____ chi i'w wneud?
3. Doeddwn i ddim yn gallu aros _____ ti.
4. Faint _____ chi sy'n aros i'r ymarfer heno?
5. Oes amser _____ ti i helpu?
6. Dywedais _____ nhw ein bod ni yn y neuadd.
7. Bydd hanner cant _____ nhw yn canu yn y cyngerdd.
8. Derbyniais i lythyr _____ fe ddoe.

Rhedeg yr arddodiaid



1. Paid â gadael **hebddi** hi.
2. Oes llawer o waith **gennyh** chi i'w wneud?
3. Doeddwn i ddim yn gallu aros **hebddot** ti.
4. Faint **ohonoch** chi sy'n aros i'r ymarfer heno?
5. Oes amser **gennyt** ti i helpu?
6. Dywedais **wrthyn** nhw ein bod ni yn y neuadd.
7. Bydd hanner cant **ohonyn** nhw'n canu yn y cyngerdd.
8. Derbyniais i lythyr **wrtho** fe ddoe.

Berf + arddodiad



Pan mae arddodiad yn dilyn berf, dydyn ni ddim yn gallu cyfieithu yn uniongyrchol i Saesneg. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio arddodiad penodol gyda berf benodol.

Edrychwch ar y canlynol:

o	i	wrth	â (gyda)
dod o	gofyn i (berson) diolch i mynd i (+ lleoliad) ysgrifennu i (+ sefydliad)	dweud wrth clywed wrth	siarad â cwrdd â / cyfarfod â mynd â dod â ymweld â

am	ar	at
chwilio am meddwl am poeni am talu am sôn am	edrych ar gwrando ar dwlu ar gweiddi ar sylwi ar	ysgrifennu at (+ person) mynd at (+ person) ychwanegu at anelu at anfon at

Berf + arddodiad



Pan mae arddodiad yn dilyn berf, dydyn ni ddim yn gallu cyfieithu yn uniongyrchol o'r Saesneg. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio arddodiad penodol gyda berf benodol.

Darllenwch y brawddegau canlynol:

Rydw i'n dod o Wynedd yn wreiddiol.

Hoffwn i ddiolch i chi am ddod i siarad gyda'r disgyblion.

“Bydda i eisiau siarad gyda / â dy rieni ar ddiwedd y dydd,” dywedodd Mr Lloyd.

Rydw i'n mynd i gwrdd â fy ffrindiau am baned a chlonc.

Byddaf i'n mynd i'r feddygfa 'fory.

Berf + arddodiad



Darllenwch y brawddegau canlynol a chylchwch yr arddodiad cywir:

1. Wyt ti wedi gofyn **i / wrth** Miss Jones am y gwaith cartref?
2. Wnest ti ddweud **i / wrth** Mr Williams dy fod wedi bod yn absennol?
3. “Gwrandewch **i fi / arna i**,” dywedodd Mrs Morus.
4. Aeth hi **i’r / at** y deintydd.
5. Aethon ni **i’r / at y** feddygfa.
6. Edrychwch **ar y / i’r** llun.
7. Rhaid taflu’r bêl **at / i** rywun arall.
8. Pwy oedd yn gweiddi **atyn / arnyn** nhw?



1. Wyt ti wedi gofyn **i** Miss Jones am y gwaith cartref?
2. Wnest ti ddweud **wrth** Mr Williams dy fod wedi bod yn absennol?
3. “Gwrandewch **arna i**,” dywedodd Mrs Morus.
4. Aeth hi **at** y deintydd.
5. Aethon ni **i’r** feddygfa.
6. Edrychwch **ar y** llun.
7. Rhaid taflu’r bêl **at** rywun arall.
8. Pwy oedd yn gweiddi **arnyn** nhw?


Pa arddodiad?








Ysgrifennwch yr arddodiad cywir yn y bylchau.

- 1) Ysgrifennodd Siôn at y Pennaeth Blwyddyn am y sefyllfa.
- 2) Roedd hi wedi sylwi ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy gerdd.
- 3) Roeddwn i'n gwrando ar y radio pan glywais y gân.
- 4) Mae hi'n mynd at y deintydd ar ôl amser egwyl.
- 5) Gwaeddodd yr athro ar y disgyblion am beidio â gwrando.
- 6) Wyt ti wedi sôn am y parti wrth dy ffrindiau?

Adnoddau defnyddiol




Cardiau drilio o'r Blwch Llythrennedd



Munud i feddwl ...


Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?



Grŵp o
dri




Help llaw



Tasg
ddarllen



Tasg
ysgrifennu



Drilio



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru